Uwchgynhadledd Cynnal Cymru

Arloesi mewn Busnes ar gyfer Economi Cynaliadwy

"…yr hyn a wna Cymru heddiw bydd y byd yn ei wneud yfory".
Nikhil Seth, Cyfarwyddwr, Adran Datblygu Cynaliadwy, Y Cenhedloedd Unedig

21ain Ebrill, 10am – 3pm

Stadiwm y Principality, Caerdydd

Crynodeb

O Ebrill 2016 bydd deddfwriaeth y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o bwys byd-eang, yn cael effaith sylweddol ar lywodraeth a chyflenwad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae iddi oblygiadau o bwys i unrhyw un sy'n rhedeg busnes yng Nghymru neu gyda Chymru. Bydd yr Uwchgynhadledd yn adnabod pa ymagweddau arloesol sydd eu hangen er mwyn i Gymru wireddu'r Nodau Llesiant a sefydlwyd gan y Ddeddf. Bydd y cynhadledd yn dwyn at ei gilydd arbenigwyr yn y maes o sefydliadau rhyng-genedlaethol sy'n arwain arferion da, ac sy'n gweithredu yng Nghymru i fynd i'r afael â thair thema newydd ac arloesol:

- Technoleg Carbon-Isel
- Effeithlonrwydd adnoddau a'r ddolen gaeedig
- Modelau newydd o Ddefnyddio Adnoddau

Agenda

9.45 **Cyrraedd a Lluniaeth**

10:15 **Rhagarweiniad a chyflwyniad o'r cefndir gan Rhodri Thomas: Cymru, man profi'r byd ar gyfer cenedl gynaliadwy**

10.30 **Elfennau nodweddiadol cymuned gynaliadwy - Yr Athro Herbert Girardet**

Herbert Girardet yw cyd-sefydlydd Cyngor Dyfodol y Byd ac mae'n ymgynghorydd i Raglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig (UNEP). Mae'n ymgynghorydd sy'n arwain y maes mewn datblygu cynaliadwy ac mae wedi derbyn y Wobr UN Global 500 Award 'am lwyddiannau amgylcheddol neilltuol'. Am flynyddoedd lawer mae wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar heriau datblygiad dinesig cynaliadwy ac fe'i elwir yn aml yn ecolegydd dinesig mwyaf blaengar y byd. Mae Herbert wedi datblygu polisïau datblygu cynaliadwy ar gyfer dinasoedd mawr megis Llundain, Fienna a Bryste. Mae'n awdur ac mae wedi cynhyrchu dros 50 o raglenni dogfen amgylcheddol ar gyfer darlledwyr teledu o bwys.

10:55 **Yr arloesedd mewn carbon isel sydd arnom ei angen:** Yr Athro Phil Jones Sefydliad Ymchwil Carbon-Isel

11:20 Egwyl

11:35 **Arloesedd mewn Adnoddau (dolen gaeedig)** – Hugo Spowers: Riversimple

12:00 **Arloesedd mewn modelau busnes** - Miriam Turner: Interface

12:25 **Clystyru ynni a datblygu economaidd** – Martyn Popham: Grwp Cenin

12:30 **Sesiwn panel gyda** WRAP, Innovate UK, Angela Gidden

13:00 Cinio

14:00 **Sut wnaeth De Awstralia fwrw ati** - Mike Rann

Cyn-wleidydd o Awstralia yw Mike Rann a wasanaethodd fel 44ain Prif Weinidog De Awstralia o 2002-2011 ac ef oedd un o Weinidogion Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd cynta'r byd. Yn dilyn ei ymddeoliad o'r Senedd, penodwyd Mr Rann i Gyngor Arweinyddiaeth Ryngwladol y Grŵp Hinsawdd. Ymunodd hefyd â Bwrdd Ymgynghorol Rhyngwladol Ymddiriedolaeth Secwestriad Ecolegol wedi ei leoli yn y DU. Ym Mehefin 2012 penodwyd Mr Rann yn Gadeirydd Awstralia Garbon Isel. Yr oedd hefyd yn Gyd-gadeirydd Fforwm Arweinyddiaeth Economaidd Awstralia-Canada ac yn aelod o Fforwm Polisi Dinesig Llywodraeth Awstralia hyd nes iddo gael ei benodi'n Uchel Gomisiynydd yn Rhagfyr 2012.

14:40 **Holi & Ateb**

14:50 **Datganiad cloi** oddi wrth Cynnal Cymru

15:00 Diwedd